# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1755(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfwyio, ym mis Gorffennaf 2006

**At Peter Black:**

Yn ystod cwestiynau yn y Cynulliad ar 11 Gorffennaf, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n gofyn i fi i ysgrifennu atoch a rhoi gwybod i chi os oes gan y sgwad parch cenedlaethol newydd unrhyw aelodau o Gymru a pha fewnbwn sydd gan Lywodraeth Cenedlaethol Cymru i'r sgwad.

Menter gan y Swyddfa Gartref yw'r sgwad parch ac nid oedd gan Lywodraeth Cenedlaethol Cymru rhan yn ei ddatblygiad. Bydd y sgwad yn gweithredu ledled Cymru a Lloegr ac yn ystyried ceisiadau wrth awdurdodau lleol, partneriaethau diogelwch lleol yng Nghymru, partneriaethau lleihau trosedd ac anhrefn yn Lloegr, penaethiaid heddlu, cynghorwyr ac ASau yn unig i daclo helyntion gwrthgymdeithasol. Os yw aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu gyda'r sgwad parch, fe'u cynghorir i gysylltu gyda'r heddlu lleol a llinellau cymorth awdurdodau lleol.

Tîm o 10 yw'r sgwad, ac fe'i arweinir gan gyfarwyddwr cynorthwyol tasglu parch y Llywodraeth, Alex Rhind. Mae aelodau'r sgwad yn staff profiadol o rheng flaen lluoedd heddlu ac awdurdodau lleol. Nid oes un ohonynt o luoedd heddlu nac awdurdodau lleol Cymreig. Byddant yn ystyried achosion lle mae cymunedau yn dioddef llawer enghraifft o ymddygiad gwrthgymdeithasol a lle nad oes, o bosib, cydlynu cadarn rhwng asiantaethau er mwyn ymateb yn effeithiol. Bydd y sgwad yn edrych yn unig ar achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, nid achosion o droseddu. Ni fydd yn ystyried cwynion sydd o fewn system yr ombwdsmon llywodraeth leol, achosion amddiffyn plant neu achosion sydd eisoes yn rhan o'r broses cyfiawnder sifil neu droseddol.

Cyn gynted â bo'r tîm wedi cael y dasg o edrych ar achos arbennig, bydd sgwad gorchwyl yn cael ei greu, yn cynnwys aelodau o'r sgwad gyda phrofiad sy'n addas i'r achos Gelwir ar y sgwad gorchwyl i gysylltu gyda'r rhai sydd yn dioddef o achos yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyda'r asiantaethau lleol sydd â rôl i'w chwarae yn canfod datrysiad. Bydd yn gwneud asesiad, yn seiliedig ar y ffeithiau a ellir eu sefydlu am yr achos, o gryfderau a gwendidau'r gweithredu presennol ac unrhyw ymyriadau a gynllunnir yn y dyfodol gan asiantaethau lleol, a gwneud argymhellion i gadeirydd y bartneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru a chadeirydd y partneriaethau lleihau trosedd ac anhrefn yn Lloegr. Bydd canlyniadau'r achos yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Swyddfa Gartref.